

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ymchwiliad i leihau'r risg o strôc

Prif gasgliadau ac argymhellion

Cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymchwiliad i leihau'r risg o strôc yng Nghymru yn ystod tymor yr hydref 2011.

Casgliadau

Gellid, a dylid, gwneud rhagor i leihau'r risg o strôc yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y perygl o gael y strôc gyntaf a'r perygl i'r rhai sydd wedi cael un strôc gael un arall. Mae rhai camau cymharol syml y gellid eu cymryd i sicrhau cynnydd gwirioneddol.

Nid yw'r gwasanaethau presennol i leihau'r risg o strôc mor effeithiol ag y gallent fod, a hynny'n rhannol, o leiaf, oherwydd diffyg eglurder ynghylch perchenogaeth ac arweinyddiaeth ar bob lefel.

Mae ansicrwydd ynglŷn â chyfrifoldeb proffesiynol dros ddarganfod achosion o ffibriliad atrïaidd ar lefel gofal cychwynnol ac, o ganlyniad, nid yw'n sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion ar hyn o bryd.

Argymhellion

Argymhelliad 1

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad llawn a thrylwyr o'r modd y caiff Cynllun Llywodraeth Cymru i Leihau'r Risg o Strôc ei roi ar waith, gan gynnwys yr holl randdeiliaid. Dylid cyhoeddi'r gwerthusiad a defnyddio'r canlyniadau i ddatblygu Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Strôc.

Argymhelliad 2

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n glir at atal strôc eilaidd yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Strôc, ac at drin a gwneud diagnosis o TIA, o ran ei gysylltiad â'r gwaith i leihau'r risg o strôc.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, erbyn Ebrill 2012, ac yn unol â'r hyn a gyhoeddwyd, yn sicrhau bod clinigau TIA ar agor saith diwrnod yr wythnos a bod canllawiau clinigol mewn perthynas ag endarterectomi carotid yn cael eu dilyn ledled Cymru.

Argymhelliad 4

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu arweiniad clir ar gyfer timau gofal cychwynnol a thimau adnoddau cymunedol o ran gwneud diagnosis o ffibriliad atrïaidd a thrin a rheoli'r cyflwr a'i bod yn cynnig diffiniad clir o gyfrifoldebau proffesiynol ym mhob maes.

Argymhelliad 5

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn arfer safonol mesur pwls cleifion sy'n ymweld â lleoliad gofal cychwynnol os daw ffactorau risg cysylltiedig â strôc i'r amlwg. Os oes angen unrhyw driniaeth yn dilyn hynny, dylai'r driniaeth gydymffurfio â chanllawiau NICE, ac mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau ychwanegol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Dylid monitro i ba raddau mae'r canllawiau'n cael eu dilyn drwy ddefnyddio archwiliadau Iechyd Cyhoeddus Cymru o ddata cofnodion gofal cychwynnol.

Byddwn yn ailedrych ar y materion a amlygwyd a'r argymhellion a wnaed ymhen deuddeg i ddeunaw mis.

Prif dermau

Ffibriliad atrïaidd

Anhwyllder cyffredin yn rhythm y galon sy'n golygu bod y galon weithiau'n curo'n afreolaidd ac yn anarferol o gyflym.

Pwl o isgemia dros dro (TIA)

Cyfes o symptomau sy'n para am gyfnod byr ac sy'n digwydd pan nad oes digon o waed yn cyrraedd yr ymennydd, fel arfer oherwydd clot bach yn rhan o'r ymennydd. Weithiau caiff ei alw'n strôc fach. Yn wahanol i strôc, fodd bynnag, nid yw'r symptomau'n para'n hir ac maent yn diflannu'n fuan.